Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Rhuthun
# Canolfan Awelon
# Ffordd yr Ysgol
# Rhuthun
# LL15 1JG

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/07/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Rhuthun. Mae’n cwrdd mewn neuadd yng Nghanolfan Awelon yn nhref Rhuthun, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae’r lleoliad yn darparu addysg am dri bore’r wythnos rhwng 9.20 y bore a 11.25 y bore yn ystod tymhorau’r ysgol.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i gymryd hyd at 38 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a hanner a phedair oed. Ar hyn o bryd, mae rhan fwyaf o’r plant tair blwydd oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar. Mae bron pob un o’r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig a’r rhan fwyaf ohonynt yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae’r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Mehefin 2010.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Hydref 2015 a gan Estyn ym mis Tachwedd 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn o fannau cychwyn sydd yn debyg i, neu'n uwch na'r cyfartaledd disgwyliedig
- y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) effeithiol
- llawer o'r plant yn defnyddio patrymau iaith ac ymadroddion Cymraeg yn hyderus
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol a chwrtais
- yr addysgu pwrpasol a'r gweithgareddau dyddiol yn effeithio ar ddysgu'r plant yn gadarnhaol
- ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant
- gofal yr ymarferwyr yn ddiwyd a thyner
- ymarferwyr yn defnyddio'r neuadd yn greadigol i ddarparu profiadau corfforol amrywiol a defnyddiol i'r plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- disgwyliadau ac ymroddiad yr arweinydd yn rhoi cyfarwyddyd clir i holl waith yr ymarferwyr a'r plant
- y pwyllgor rheoli cefnogol yn monitro'r ddarpariaeth yn ofalus a chydwybodol
- diwylliant sefydlog o hunanarfarnu yn arwain at welliannau defnyddiol
- ymarferwyr yn elwa o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol bwriadus ac ymarferol
- defnydd deallus o wasanaethau cymorth ac arbenigol yn effeithio ar y ddarpariaeth yn bwrpasol
- partneriaethau llwyddiannus yn cefnogi'r ddarpariaeth a dysgu'r plant yn effeithiol
- yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio'r gyllideb yn synhwyrol i flaenoriaethu'r gwariant yn ddoeth i sicrhau gwelliannau

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd pwrpasol i gyfoethogi ymwybyddiaeth y plant o'u hardal leol

A2 Sicrhau bod deilliannau asesu yn arwain at gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol

A3 Sicrhau bod yr arweinydd yn rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol gyda'r ymarferwyr

A4 Creu arferion effeithiol i gyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr am gynnydd eu plant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn sydd ar y cyfan yn debyg i, neu'n uwch na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a dan arweiniad oedolion i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh effeithiol.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio patrymau iaith ac ymadroddion Cymraeg yn hyderus mewn chwarae anffurfiol ac yn ystod tasgau ffocws, heb anogaeth oedolion. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau yn y Gymraeg yn astud ac yn gweithredu arnynt yn ddeallus. Mae rhan fwyaf ohonynt yn canu hwiangerddi a chaneuon Cymraeg yn frwdfrydig ac maent yn awyddus i ymateb yn ystyrlon i holi a heriau'r ymarferwyr. Mae hyn yn amlwg yn ystod gweithgareddau torfol wrth iddynt drafod stori'n hyderus ac ailadrodd digwyddiadau a helyntion Jac, wrth iddo brynu a phlannu'r hadau i dyfu'r goeden ffa.

Mae ychydig o blant yn dechrau darllen eu henwau ac enwau eu cyfoedion yn gywir ac yn tynnu sylw ymarferwyr tuag at lythrennau cyfarwydd ar arddangosfeydd a theitlau llyfrau. Mae llawer o'r plant yn trin a thrafod llyfrau yn yr ardal dawel fel darllenwyr ifanc deallus. Maent yn ymateb i gynnwys llyfrau mewn parau ac fel unigolion yn synhwyrol. O ganlyniad, maent yn deall diben y lluniau a'r ysgrifen ac yn trafod cymeriadau cyfarwydd yn wybodus.

Mae llawer o'r plant yn creu marciau'n bwrpasol wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent felly'n dyfalbarhau'n llwyddiannus â phrofiadau ysgrifennu cynnar. Er enghraifft, maent yn defnyddio paent lliwgar fel melyn a choch i adlewyrchu blodau prydferth ac ysgrifbinnau ar bapur i ddilyn patrymau amrywiol a llinellau gwahanol. Mae ychydig o'r plant yn dechrau ffurfio llythrennau a rhifau'n annibynnol, mewn ffurfiau adnabyddadwy yn dda.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol wrth iddynt chwarae ac arbrofi â rhifau. Er enghraifft, maent yn cyfatebu rhifau a gwrthrychau'n gywir yn y tywod ac yn nodi rhifau sydd ar goll rhwng un a deg yn hyderus. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn adnabod, yn enwi ac yn cyfrif rhifau i ddeg yn annibynnol. Mae ychydig ohonynt yn dechrau cyfrif i ddeg a thu hwnt yn gywir wrth ddidoli siapiau a gwrthrychau a threfnu siapiau tri dimensiwn fel ciwb, ciwboid, silindr a chôn i adeiladu tyrrau o wahanol uchderau. Mae rhan fwyaf o'r plant yn deall bod gwahaniaethau mewn maint yn gallu effeithio ar bwysau gwrthrych a bod ochrau o wahanol hyd yn amharu ar gydbwysedd a sefydlogrwydd adeilad. O ganlyniad, maent yn trafod priodweddau siapiau a gwrthrychau yn fedrus.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio amrywiaeth o offer TGCh yn llwyddiannus. Maent yn rheoli teganau electronig yn hyderus ac yn dewis defnyddio llechi electronig i ymestyn eu gwaith a'u dealltwriaeth yn annibynnol. O ganlyniad, maent yn defnyddio meddalwedd addysgol, apiau a chaledwedd y lleoliad yn fwriadus i wella'u medrau TGCh.

Mae llawer o'r plant yn dewis offer a deunyddiau'n effeithiol i ddatrys problemau ymarferol. Er enghraifft, maent yn arbrofi â siapiau sy'n gweddu â'i gilydd, i gopïo blodau mewn potiau wrth greu cerfluniau o flodau gwahanol. Mae rhan fwyaf o'r plant yn greadigol ac arbrofol pan fyddant yn peintio a delweddu toes i greu anifeiliaid fel cathod ac adar.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn neidio'n frwd ar drampolîn bach, yn dawnsio a symud i gerddoriaeth ac yn gyrru tractorau a beiciau'n fywiog mewn rhan benodol o'r neuadd.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad ac yn ystod eu hamser yno. Maent yn dangos cymhelliant a diddordeb yn eu dysgu, ac mae rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio'n synhwyrol yn ystod eu tasgau. Mae rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau amrywiol ym mhob maes dysgu ac maent yn rhannu adnoddau ac yn gweithio'n ddiwyd gyda phlant eraill. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd, er enghraifft wrth iddynt chwarae tambwrîn yng nghuddfan y lleoliad a thrafod nodweddion a gwahaniaethau malwod a gwenyn yn ystod amser cylch.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr hyderus ac maent yn gweithio'n gwbl annibynnol yn ystod gweithgareddau chwarae a thasgau ffocws i ddatrys heriau. Mae llawer ohonynt yn gwneud dewisiadau doeth am ba feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau fel chwarae rôl adeiladwr wrth greu tŵr neu osod llestri ar fwrdd yn yr ardal gartref.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn esbonio pa dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt yn hyderus yn ogystal â beth sydd yn eu cymell i lwyddo. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn penderfynu parhau â thasg benodol neu ddechrau gweithgaredd newydd o'u dewis eu hunain. O ganlyniad, mae rhan fwyaf ohonynt yn dechrau mynegi eu barnau a'u hoffterau personol yn eglur i'r ymarferwyr a'u cyfoedion.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn ystyrlon ac maent yn gwrtais. Maent yn dangos parch wrth ymateb i oedolion a'i gilydd, sy'n cyfrannu at ethos cadarnhaol yng ngwaith dyddiol y lleoliad. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n synhwyrol ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn llinellu i olchi a sychu eu dwylo cyn byrbryd. Mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr heb anogaeth gan ymarferwyr ar ôl defnyddio'r toiled a chwarae anniben â phaent a thywod. Mae hyn yn adlewyrchu eu dealltwriaeth gadarn fod glendid yn bwysig i atal heintiau ac yn cyfrannu tuag at fywydau iachus.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n gydwybodol i ddarparu gweithgareddau diddorol i'r plant. Maent yn canolbwyntio'n ddiwyd ar ddatblygu dysgwyr annibynnol trwy ddarparu gweithgareddau pwrpasol ac amrywiol fel dilyn tyfiant penbyliaid mewn tanc dŵr. Maent yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol ac i

ymhelaethu ar eu profiadau personol yn effeithiol mewn trafodaethau torfol a thasgau grŵp, fel plannu hadau berwr. Yn ogystal, maent yn hyrwyddo syniadau'r plant yn llwyddiannus wrth chwarae rôl rhiant gyda doliau yn y gornel gartref a thrafod nodweddion y tywydd gyda'i gilydd. O ganlyniad, maent yn darparu cwricwlwm a phrofiadau dysgu synhwyrol, sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn trafod sut i baratoi a chyflwyno gweithgareddau cyffrous a difyr yn wythnosol. Mae'r cynlluniau cynnil iawn yn canolbwyntio ar ddiddordebau a dewisiadau'r plant yn llwyddiannus, trwy nodi pa weithgareddau maent yn eu hoffi neu'n gweld yn anodd. Mae'r ymarferwyr yn cychwyn defnyddio deilliannau asesu parhaus yn briodol er mwyn diffinio'r camau nesaf yn nysgu'r plant. Fodd bynnag, datbygliad diweddar yw hwn ac nid yw wedi gwreiddio yng ngwaith y lleoliad eto.

Er bod y cyfleoedd i ddarparu gweithgareddau corfforol i'r plant yn anodd oherwydd natur yr adeilad a gan nad oes ardal allanol benodol, mae'r ymarferwyr yn greadigol wrth gynllunio ar gyfer cyflawni hyn. Maent yn defnyddio'r neuadd yn ddyddiol i ddarparu gweithgareddau bywiog i blant reidio beiciau a thractorau. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt blannu hadau ffa tu fewn, er mwyn eu gwylio'n egino. Maent yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i'r plant ddawnsio, neidio ar drampolîn bach a symud yn fywiog yn y neuadd, sy'n hybu synnwyr y plant o ffitrwydd yn effeithiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu medrau corfforol y plant yn dda.

Mae'r tasgau parhaus a ffocws yn datblygu medrau'r plant yn effeithiol wrth iddynt ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a datrys problemau yn rheolaidd. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw'r modd y maent yn gadael y plant i beintio blodau ac anifeiliaid gwyllt a dilyn cyfarwyddiadau i symud dyfais electronig ar ben bwrdd yn annibynnol. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol tuag at frwdfrydedd y plant wrth iddynt ddysgu trwy chwarae ac arbrofi â phensiliau a gwahanol gyfryngau fel toes. Yn ogystal, darperir cyfleoedd cadarn i blant drefnu a dosbarthu rhifau yn y tywod a'u pegio i fwrdd sy'n cyfatebu â rhifau penodol hyd at 10. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gynnig eu syniadau, trwy heriau ymarferol, er mwyn datrys problemau yn ddeallus.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg yn fuddiol iawn i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn fodelau hyderus o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn ogystal â'r rhai sy'n dechrau dysgu'r iaith yn bwrpasol. O ganlyniad, maent yn ymestyn geirfa a phatrymau iaith y plant ar bob lefel o allu yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ddefnyddio'r iaith gymaint ag y bo modd trwy weithgareddau a chaneuon ysgogol. Maent yn herio a holi'r plant yn gyson yn yr ardaloedd dysgu ac mae eu trafodaethau synhwyrol a phatrymau iaith cyson yn cymell y plant i ymateb yn ddeallus a phrydlon. Effaith y ddarpariaeth hon yw bod llawer o'r plant yn ymateb trwy ddefnyddio ymadroddion cyfarwydd yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad, sy'n ymestyn eu dealltwriaeth o gyfathrebu ag eraill yn dda.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, mynychu'r Eisteddfod a chyngherddau lleol a phobi cacennau traddodiadol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddefnyddio offer TGCh fel teganau a llechi electronig, cyfarpar i wneud marciau a chwaraewr cryno ddisg. Yn ogystal, maent yn defnyddio meddalwedd addysgol ac apiau yn rheolaidd a bwriadus ar lechi electronig.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd priodol o ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Maent yn cynnwys ymweliadau achlysurol i'r goedwig. Fodd bynnag, nid ydynt yn manteisio ar gyfleoedd i ymweld â'r dref, sy'n cyfyngu dealltwriaeth y plant o'u hardal leol. Mae ymwelwyr fel y gwasanaethau brys, glanweithydd deintyddol a ffermwr ag oen yn addysgu'r plant am rolau pobl yn eu cymuned yn bwrpasol.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant. Maent yn wybodus ynglŷn â gofynion y cyfnod sylfaen ac yn cydweithio'n dda. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn synhwyrol, sy'n annog cyfranogiad a mwynhad y plant yn effeithiol yn yr holl ardaloedd dysgu a'r gweithgareddau dyddiol.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau cadarn ac maent yn cefnogi'r plant yn gyson yn ystod tasgau ffocws a thasgau parhaus. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cymhelliant a dyfalbarhad y plant yn effeithio ar eu gwaith yn fwriadus. Mae cyflwyniadau ac ymroddiad yr arweinydd yn ystod sesiynau torfol ac amser stori yn fywiog, sy'n sbarduno a chynnal diddordebau'r plant yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn wrth ymyrryd ym mhrofiadau a chwarae'r plant. Maent yn synhwyrol eu ffyrdd ac yn effeithio'n gadarnhaol ar awydd y plant i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn ysgogi ac arwain y plant at lwyddiannau'n gyson. Gwelir enghreifftiau cadarn o hyn wrth i blant ddyfalbarhau i ddilyn patrwm gydag ysgrifbinnau, snipio a thorri â sisyrnau ac esbonio nodweddion gwahanol anifeiliaid i'w gilydd wrth drefnu tir o gwmpas y fferm.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant yn gyson i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd eang i ddysgu trwy arbrofi a chwarae ac yn sicrhau bod y plant yn cylchdroi'n rheolaidd i brofi medrau gwahanol ym mhob maes dysgu. Yn ychwanegol, maent yn holi'r plant yn graff i ddatblygu eu medrau cyfathrebu a meddwl. Gwneir hyn yn llwyddiannus wrth iddynt drefnu ei gilydd yn gyntaf, ail a thrydydd wrth linellu am fyrbryd a deall y gwahaniaeth rhwng 'ar ben' neu 'oddi tano' ac 'o flaen' neu 'tu ôl'.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn ddefnyddiol. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn trafod asesiadau dyddiol yn synhwyrol gyda'r plant er mwyn iddynt wybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Mae'r ymarferwyr yn cychwyn defnyddio'r asesiadau hyn yn briodol i nodi'r camau nesaf yn nysgu plant unigol. Fodd bynnag, datblygiad diweddar yw hwn ac nid yw'r ymarferwyr yn defnyddio deilliannau asesu yn ddigon trwyadl eto er mwyn targedu anghenion unigolion.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn briodol am gyflawniadau eu plant trwy ddeialog ddyddiol werthfawr rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae'r lleoliad yn darparu llyfryn a chofnodion i'r ysgolion lleol ar gynnydd y plant, sydd hefyd ar gael i'r rhieni a'r gofalwyr os dymunant eu gweld.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau byrbryd ac amser stori i feithrin y gwerthoedd hyn yn llwyddiannus. Maent yn hyrwyddo ystyriaeth a dealltwriaeth y plant o deimladau cyfoedion yn ddeallus. O ganlyniad, mae'r plant yn trin ei gilydd yn deg ac yn parchu eraill, gan gynnwys oedolion.

Mae'r arweinydd a'r holl ymarferwyr yn creu amgylchedd myfyriol wrth ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i blant feddwl, gweddïo, trafod teimladau a dweud diolch. Effaith hyn yw bod plant yn distewi i wrando ar eraill, yn cymryd eu tro'n ddeallus ac yn rhannu cyfarpar. Mae'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau'n synhwyrol wrth linellu am fyrbryd, golchi dwylo, arllwys diod a dewis cynnwys eu byrbrydau. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldebau personol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, nwyddau plastig a bwyd i gompostio â mwydod. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae'r lleoliad yn gweithredu systemau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu at ffordd synhwyrol o fyw ac yn arwain at fywydau iachus.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel. Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus pan fydd y plant yn cyrraedd a phan gânt eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r defnydd o strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad anghyfrifol.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn gydwybodol pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad ac yn ystod eu cyfnod yno. Maent yn cyfeirio plant ar unwaith at asiantaethau arbenigol os oes angen ymyrraeth benodol ac yn darparu cymorth perthnasol pan fo'r angen yn codi. O ganlyniad, maent yn gweithredu cefnogaeth bwrpasol i blant anghenus drwy ddefnyddio asiantaethau allanol i gefnogi'r plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol ac mae gan yr ymarferwyr adnabyddiaeth glir o anghenion y plant. Mae'r holl blant yn cael cyfleoedd cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn gytûn wrth herio a chefnogi'r plant yn ddyddiol mewn moddau cadarnhaol a chefnogol.

Mae'r ymarferwyr yn atgoffa'r plant yn gyson ein bod ni'n byw mewn cymdeithas sy'n cydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau dyddiol ac agweddau synhwyrol tuag at bobl eraill. Maent yn dathlu gwyliau fel Diwali yn flynyddol, yn astudio agweddau o fyw yn Asia ac Affrica ac yn defnyddio doliau i drafod nodweddion gwahanol ddiwylliannau. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a thraddodiadau'r byd yn llwyddiannus.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n bwrpasol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion plant. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh cyfredol i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus. Mae'r ystod eang o adnoddau diddorol a difyr yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i herio'r plant mewn tasgau ffocws a gweithgareddau parhaus i gyfoethogi'r dysgu. Er enghraifft, maent yn plannu hadau blodau haul er mwyn mesur uchder y blodau dros dymor yr haf. Yn ogystal, mae'r adnoddau ar lefel ymarferol i bob un o'r plant, sy'n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn effeithiol.

Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn briodol ac mae'n ddiogel. Mae pob ardal sydd ar gael iddynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac maent yn rhannu'r adeilad gyda rhaniadau a byrddau'n synhwyrol i reoli ac ysbrydoli'r plant. Yn ogystal, maent yn defnyddio byrddau symudol yn ystyrlon i arddangos gwaith a thargedau'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio rhan o'r llwybr sy'n arwain o'r allanfa dân i ymchwilio am drychfilod yn briodol, oherwydd nid oes ardal allanol ar gael iddynt. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal fewnol yn greadigol er mwyn cyfoethogi profiadau corfforol a garddio'r plant. Er bod y profiadau hyn yn bodoli, nid ydynt yn defnyddio cyfleusterau cyfagos y dref yn ddigon rheolaidd i gyfoethogi profiadau'r plant yn yr awyr agored er mwyn datblygu gwell ymwybyddiaeth o'u hardal leol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn cynnal arferion rheolaidd y lleoliad yn effeithiol. Mae hi'n hyrwyddo gwelliannau cyson ac yn dathlu llwyddiannau yng ngwaith y plant yn bwrpasol. Mae ei gweledigaeth a'i brwdfrydedd yn gadarn. Mae'n rhannu'r ddarpariaeth a gweithdrefnau rheoli gyda lleoliad cyfagos, sy'n sicrhau bod cyflawniadau'r plant yn gwella, trwy addysgu a gofal effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinydd yn rhannu cyfrifoldebau gyda'r ymarferwyr eraill yn ddigon effeithiol.

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n ddiwyd ar wella safonau a lles y plant trwy addysgu cadarn a thrwy adeiladu perthynas agos â'u rhieni. Mae hyn yn bodloni anghenion y plant yn effeithiol ac yn hyrwyddo eu cynnydd a'u datblygiadau personol yn synhwyrol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithlon fel tîm ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a'r plant. O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn cymell y plant yn ddyddiol i wella mewn ffyrdd cadarnhaol a chefnogol, yn enwedig ar lafar yn y Gymraeg.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i adnabod mannau cychwyn y plant yn gywir ynghyd â hyfforddi'r holl ymarferwyr i ddefnyddio deilliannau asesu yn fwy effeithiol er mwyn targedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant. Mae'r systemau hyn yn dechrau gwreiddio'n briodol yng ngwaith dyddiol y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar greu ardaloedd dysgu difyr a diddorol i'r plant yn y neuadd. O ganlyniad, maent yn creu newidiadau buddiol i'r heriau wythnosol i

gyd-fynd â'r themâu gwahanol fel y fferm a bywyd yr ardd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r plant, yn enwedig eu medrau siarad a gwrando yn y Gymraeg. Yn ogystal, mae'r arweinydd yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh, i wella medrau'r plant cyn iddynt ddechrau'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys creu ardal lyfrau i fyfyrio a darparu ystod eang o gyfarpar technolegol i herio'r plant ymhellach.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli cefnogol, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn effeithiol. Mae'r pwyllgor rheoli yn asesu perfformiad yr arweinydd yn flynyddol ac mae'r arweinydd yn gwerthuso a chefnogi'r ymarferwyr yn ddeallus. O ganlyniad, mae'r staff cyfan yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau a thrafodaethau cyson.

Mae'r pwyllgor rheoli'n cefnogi a chydweithio â'r lleoliad yn synhwyrol i gynnal a gwella'r arferion sefydlog a datblygu'r meysydd sydd angen eu gwella ymhellach. Maent yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am waith a digwyddiadau'r lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd a threfnu digwyddiadau i godi arian fel nosweithiau caws a gwin. O ganlyniad, mae'r pwyllgor rheoli ymroddgar yn cyfarfod yn gyson i drefnu gweithgareddau i gynyddu'r incwm er mwyn gwella'r adnoddau yn y lleoliad.

### Gwella ansawdd: Da

Mae'r hunanarfarnu yn rhan weithredol o weithdrefnau blynyddol y lleoliad. Mae'r arweinydd yn cofnodi manylion am safonau'r plant ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyson, trwy ddefnyddio gweithdrefnau'r awdurdod lleol yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys proffiliau meintiol sy'n mesur effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn fwriadus. Mae'r pwyllgor rheoli'n cymryd rhan ddefnyddiol yn y broses. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gref o gryfderau'r lleoliad a'r wybodaeth i dargedu'r meysydd i'w gwella yn ddeallus.

Mae'r cydweithio effeithiol rhwng yr arweinydd, yr ymarferwyr, y pwyllgor rheoli, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn cyfrannu at welliannau buddiol i waith y lleoliad. Mae'r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd, yn ogystal ag ymweliadau ac arfarniadau gan yr asiantaethau allanol, yn cyfrannu'n bwrpasol at y gweithdrefnau hunanarfarnu. Mae'r gefnogaeth a'r parodrwydd i wella yn effeithio ar y lleoliad yn bwrpasol ac yn blaenoriaethu anghenion yn brydlon. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn ariannu unrhyw gostau'n effeithiol cyn iddynt ddechrau ar unrhyw newidiadau. Mae hyn yn cynnwys gwella'r cyfarpar TGCh a threfnu gweithgareddau ac adnoddau gwell i herio'r plant i wella'u hysgrifennu cynnar. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn effeithiol i bennu blaenoriaethau synhwyrol yn y cynllun gwella.

Mae'r ymarferwyr yn cytuno ar y blaenoriaethau ac yn newid eu ffyrdd o weithio ac agweddau ar y ddarpariaeth yn effeithlon i ymateb i'r anghenion a nodwyd yn y cynllun gwella. Ar y cyfan, mae'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella yn deillio'n uniongyrchol o broses hunanarfarnu'r lleoliad.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n blaenoriaethu gwariant yn bwrpasol yn unol â'r targedau ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn trefnu hyfforddiant i'r staff ar sut i weithredu cynlluniau iaith defnyddiol, dan arweiniad Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn gweithredu'n effeithiol yn unol â'u cyngor. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a safonau a medrau'r plant yn gyffredinol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau strategol effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n bwrpasol gyda phartneriaid i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n dda ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddogion Mudiad Meithrin i sicrhau gwelliannau mewn sawl agwedd o'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn dilyn cynllun penodol yn llwyddiannus i wella ac asesu gwaith llafar y plant yn y Gymraeg.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Maent yn eu hysbysu'n rheolaidd, drwy gylchlythyron a chyfryngau cymdeithasol, am bob agwedd o waith y lleoliad. Fodd bynnag, nid oes gan y lleoliad drefniadau digon effeithiol er mwyn iddynt wybod am gynnydd a chyflawniad eu plant yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad.

Mae cyfleoedd gwerth chweil ar gael i rieni gynnig eu barn ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron, cyfarfodydd y pwyllgor rheoli a thrafodaethau dyddiol wrth ddrws y neuadd. Mae'r cysylltiadau cymunedol hyn yn hybu'r ddarpariaeth yn llwyddiannus trwy gefnogi'n ariannol i gynnal staff. Yn ychwanegol, mae'r gefnogaeth yn fuddiol wrth gynnig am gyfarpar a grantiau perthnasol gan fusnesau lleol a chenedlaethol er mwyn gwella'r ddarpariaeth ymhellach.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau cadarn â'r ysgolion lleol. Mae hyn yn cefnogi trefniadau pontio'r plant gyda'r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithlon. Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn ddefnyddiol i'r plant wrth iddynt ymgynefino â'u hysgolion newydd.

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n hynod o lwyddiannus gyda lleoliad cyfagos. Mae'r ddau yn rhannu ymarferwyr ac adnoddau'n bwrpasol ac yn targedu anghenion penodol trwy ddefnyddio arbenigedd yr ymarferwyr yn ddoeth.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi dogfennaeth a hyfforddiant yr ymarferwyr yn effeithiol. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid eraill sydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n darparu hyfforddiant fel cymorth cyntaf, hylendid bwyd ac amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn ymdrechu'n gyson i wella pob agwedd o waith y lleoliad. Mae'r arweinydd diwyd a'r pwyllgor rheoli cefnogol yn defnyddio arferion pwrpasol i alluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys trwy ddarparu hyfforddiant cyflawn. O ganlyniad, defnyddir ymarferwyr yn ddeallus i dargedu anghenion y plant ac mae adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithlon.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn sefydlog ac yn sicrhau addysgu da a dysgu pwrpasol. Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau yn synhwyrol i gefnogi dysgu'r plant. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau'n galluogi'r arweinydd a'r ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithlon. Mae arferion da yn

bodoli o gydweithio pwrpasol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.  Mae hyn yn cefnogi’r ddogfennaeth a gweithdrefnau rheolaethol y lleoliad yn effeithiol.

Mae arferion a threfniadau dyddiol y lleoliad yn gyson ac yn sicrhau bod plant yn elwa o brofiadau dysgu diddorol a chadarnhaol tu mewn i’r adeilad.  Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael mynediad parod i ddigon o adnoddau ysgogol i gefnogi eu dysgu’n effeithiol, sy’n cynnwys gweithgareddau corfforol.

Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a’r heriau sydd ynghlwm â hi.  Maent yn blaenoriaethu gwariant a defnyddio’r cyllid a grantiau’n ofalus, gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol yn eu cynlluniau.  Mae gofalwyr a rhieni hefyd yn cyfrannu’n dda i gyllido’r lleoliad, trwy ddigwyddiadau cymunedol i godi arian.  O ganlyniad, mae’r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau’r plant.

Mae’r lleoliad yn gwella cyflawniadau’r plant trwy ddarpariaeth effeithiol ac arweinyddiaeth lwyddiannus.  O ganlyniad, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |